# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 10 Chwefror 2015** |
| Amser: | **09.00 – 10.40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2605**

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar AC (Cadeirydd)**
**Jocelyn Davies AC**
**William Graham AC**
**Mike Hedges AC**
**Sandy Mewies AC**
**Julie Morgan AC**
**Jenny Rathbone AC**
**Aled Roberts AC**

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

**Michael Kay (Clerc)**
**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**
**Jeremy Morgan (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)**
**Dave Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau. Datgelodd Sandy Mewies ddiddordeb fel Aelod o Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, ac roedd yn absennol o’r drafodaeth ar gyfer eitemau 5 a 6.

## 2 Papurau i’w nodi:

2.1 Nodwyd y papurau.

2.2 Datgelodd Julie Morgan ddiddordeb, gan mai ei gŵr oedd y Prif Weinidog ar adeg y buddsoddiad ym Masn y Rhath a soniwyd am hynny yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at Eluned Parrott.

## 3 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Y Wybodaeth Ysgrifenedig Ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

3.1 Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ysgrifenedig ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- Gwahodd y Prif Swyddog Nyrsio i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Ysgrifennu at bob Cyngor Iechyd Cymuned yn holi pa waith sy’n cael ei wneud mewn perthynas â hysbysu ynghylch maeth a hydradu ar gyfer cleifion.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Sesiwn briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Reoli Ymadawiadau Cynnar yng Nghyrff Cyhoeddus Cymru

5.1 Cafwyd sesiwn briffio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ar ei hadroddiad diweddar ar Reoli Ymadawiadau Cynnar yng Nghyrff Cyhoeddus Cymru.

5.2 Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu'r canlynol:

- Nodyn ar y cynllun Buddsoddi i Arbed.
- Faint o staff oedd gan bob corff dan sylw ar ddiwedd 2013-2014.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor hefyd:

- Y byddai’n ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn iddo ymateb i'r adroddiad.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2013-14: Ystyried yr Adroddiad Drafft

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Graffu ar Gyfrifon 2013-14, a chytunwyd ar nifer fach o newidiadau.